**DATBLYGU POLISI**

# CYNGOR ADNEWYDDU'R ECONOMI

# FFRAMWAITH ECONOMAIDD AR GYFER BUDDSODDI

# PAPUR TRAFOD

## Cyflwyniad

1. Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Adnewyddu'r Economi, cafwyd trafodaeth ragarweiniol ynghylch y papur a gyflwynwyd gan TUC Cymru, *Tuag at Strategaeth Ddiwydiannol i Gymru*. Arweiniodd hyn at drafodaeth gychwynnol mewn perthynas â fframwaith economaidd ar gyfer buddsoddi. Cytunodd y Cyngor i ddychwelyd at y drafodaeth hon yng nghyfarfod mis Hydref, wedi ystyriaeth bellach ymhlith y partneriaid cymdeithasol ac yng nghyfarfod Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi.

## Diben y papur hwn

2. Diben y papur trafod hwn yw cyflwyno cefndir i *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi*, sy'n adeiladu ar Adnewyddu Economaidd a'r sail tystiolaeth greiddiol ac yn cefnogi'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Bydd y Fframwaith yn cyfuno ac yn parhau â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn y tymor byr a'r tymor canolig, ar draws bortffolios Gweinidogion perthnasol, ac yn cefnogi uchelgeisiau a blaenoriaethau yn y tymor hirach. Bydd yn nodi rôl Llywodraeth Cymru a gwaith partneriaeth, a bydd swyddi a thwf yn rhan ganolog o'r Fframwaith.

3. Mae'r papur hwn yn nodi'r rhesymau sy'n tanategu *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi*, y themâu tebygol, egwyddorion a blaenoriaethau, ynghyd ag awgrymiadau am gamau nesaf

## Cyd-destun Economaidd a Chyllidol

4. Mae consensws cyffredinol fod y materion strategol, strwythurol a chyfredol yn gymhleth, ac nid yw'r heriau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig – mae angen i'r gymuned fusnes, partneriaid cymdeithasol a chyrff cyflawni arweiniol eraill oll gydweithio – ac mae llwyddiant economaidd yn dibynnu ar ragor o gydnerthedd, creadigrwydd ac ystwythder.

5. Mae'r heriau sy'n wynebu economi Cymru yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae materion strwythurol dwfn sydd wedi datblygu dros genedlaethau, ac maent yn parhau i lunio allbynnau economaidd ar draws Cymru. Roedd y materion hyn yn bodoli cyn y dirwasgiad ac mae dealltwriaeth dda ohonynt; y bwlch mewn cynhyrchiant, y proffil demograffig, cyfraddau cyflogaeth cymharol ac amrywiadau gofodol. Yn ail, mae Cymru a gwledydd datblygedig eraill yn wynebu amrywiaeth helaeth o heriau strategol,

**DATBLYGU POLISI**

er enghraifft, integreiddio cynyddol yr economi fyd-eang, ailstrwythuro cyflogaeth ar draws sectorau, a phwysigrwydd cynyddol gwybodaeth a sgiliau.

6. Ffactor ychwanegol sy'n effeithio ar y gallu i drechu'r rhwystrau tymor byr a buddsoddi ar gyfer y dyfodol yw'r cyfuno sylweddol mewn polisi cyllidol gan Lywodraeth y DU, a gostyngiad mewn gwario ar draws y DU yn deillio o hynny. Mae'r polisi cyllidol yn debygol o barhau'n gaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac mae sefydliadau megis y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn rhagfynegi y gallai'r DU wynebu camau cynilo am bum mlynedd arall neu ragor.

7. O gofio'r cefndir hwn, ac ar waethaf rhai arwyddion calonogol yn ddiweddar, mae nifer o ddaroganwyr a berchir yn disgwyl i economi'r DU wella'n weddol araf; rhagolwg siomedig o gofio pa mor bell yw'r economi at ddychwelyd i'w sefyllfa cyn y dirwasgiad. Mae mesurau cynilo yn effeithio'n sylweddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar adeg pan mae anghenion yn fwy nag erioed.

**Polisi'r Llywodraeth**

8. Mae twf economaidd, swyddi cynaliadwy a threchu tlodi wrth wraidd y *Rhaglen Lywodraethu* a chyflawni yn erbyn y rhain yw blaenoriaeth bennaf y Llywodraeth. Nid yw'r dystiolaeth economaidd sy'n tanategu egwyddorion adnewyddu'r economi wedi newid, ac erys y dystiolaeth fod buddsoddiadau mewn seilwaith, sgiliau, arloesedd a gwella'r amgylchedd busnes yn hanfodol i sicrhau y gall Cymru gyflawni'r heriau strwythurol a strategol yn y tymor canol neu'r tymor hir.

9. Fodd bynnag, yr her agosaf oedd hyd a dyfnder y dirwasgiad, ac ni ellid ei rhagweld yn llawn yn 2009 yn ystod Rhaglen Adnewyddu'r Economi. Ni chafodd Cymru ei gwarchod rhag y cerrynt a'r pwysau economaidd ehangach, ac o gofio'r breuder hwn yn yr amgylchedd economaidd a digwyddiadau anrhagweladwy'r blynyddoedd diweddar, bu angen am bolisïau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau wrth iddynt godi.

10. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu'r pwerau sydd ganddi, darparu arweinyddiaeth bragmatig, gweithio'n bwrpasol a hyblyg, gwneud i'w hadnoddau ymestyn ymhellach a blaenoriaethu gweithgareddau i liniaru rhai o'r effeithiau gwaethaf a chyflawni effeithiau parhaol ar gyfer busnesau, pobl a lleoedd ar draws Cymru.

11. Ochr yn ochr â chyflawni yn erbyn ymroddiadau tymor hir Adnewyddu'r Economi, megis cryfhau'r rhyngwyneb rhwng cynllunio a datblygu economaidd; cynhyrchu cynllun seilwaith strategol i Gymru; a blaenoriaethu sectorau trwy ymyraethau wedi'u targedu'n well, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn cymryd camau gweithredu helaeth i wella sefyllfa bresennol yr economi yng Nghymru. Er enghraifft:

   - Ei gwneud yn haws i fusnesau gael cyllid, e.e. trwy Gronfa Twf Economaidd Cymru, a ddyfarnodd fwy na £30m yn ystod y cam cyntaf i tua 120 o brosiectau busnes ar draws Cymru, ac mae potensial i greu tua 1800 o swyddi newydd a diogelu tua 1600;

**DATBLYGU POLISI**

- Ei gwneud yn haws i gychwyn a datblygu busnes e.e. trwy’r Gwasanaeth Cychwyn Busnes, a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan dros 9,000 o unigolion, gan arwain at greu dros 2,270 o fentrau a 3,200 o swyddi;

- Defnyddio rhyddhad ardrethi busnes wedi’i dargedu i gefnogi busnesau ar draws Cymru, er enghraifft, trwy Gynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter, rydym wedi cynnig gwerth tua £800,000 o gymorth i fusnesau sy'n cyflogi dros 1,200 o bobl ar hyn o bryd;

- Cefnogi cyfleoedd swyddi trwy’r rhaglen Twf Swyddi Cymru, sydd eisoes wedi cynorthwyo i greu dros 4,000 o gyfleoedd swyddi;

- Hyrwyddo masnach a buddsoddi rhyngwladol – dengys ffigyrau mewnfuddsoddi diweddaraf Masnach a Buddsoddi y DU fod cynnydd o bron iawn 100% yn nifer y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yng Nghymru o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol (7,047 o swyddi newydd a swyddi a ddiogelwyd yn ystod 2012/13).

## Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi

12. Fel mewn mannau eraill, ymddengys fod economi Cymru yn cychwyn gwella, ond erys ansicrwydd ynghylch cyfeiriad yr adferiad hwnnw i’r dyfodol, ac erys yr angen i ddatrys llawer o'r niwed a achoswyd gan y dirwasgiad.

13. Parhad ansicrwydd economaidd a newid cyson yw’r deinamig ‘newydd normal’ i’r economi. Mae’r gallu i barhau i ymateb yn effeithiol yn y tymor byr a gosod sylfaeni cryf ar gyfer twf cynaliadwy i’r dyfodol yn dal yn hanfodol. Mae cydbwysedd polisïau ac ymyraethau Llywodraeth Cymru wedi esblygu yn ystod blynyddoedd diweddar i adlewyrchu’r cyfnod a’r heriau a wynebir sy'n newid yn gyflym, ac mae gwrando ac ymateb i anghenion busnes a rhanddeiliaid wedi bod yn rhan allweddol o hyn.

14. Mewn economi byd-eang sy’n gynyddol gystadleuol, â rhagor o fusnesau yn fwy dilyffethair nag erioed o’r blaen, mae ar Gymru angen hinsawdd busnes cyffredinol sy’n ddeniadol ac yn addas i fuddsoddi. Mae cydnabod hyn a manteisio ar gyngor y sector preifat wedi arwain at ddatblygu gwaith mewn perthynas â Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter, Ardaloedd Twf Lleol ac Ardaloedd Gwella Busnes – dull gofodol o ganolbwyntio ar broblemau ar draws Llywodraeth Cymru a gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn adeiladu ar egwyddorion adnewyddu'r economi, ond mae'n cynrychioli dimensiwn newydd polisi a chyflawni economaidd yng Nghymru.

15. Mae’r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol a map Ardaloedd a Gynorthwyir yn y DU yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae fframweithiau Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn cael eu datblygu ynghyd â Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd cysylltiedig. Bydd y rhain yn llunio’r dull o ddefnyddio cyllid Ewropeaidd i gefnogi datblygu economaidd ar draws Cymru dros y ddegawd nesaf, fwy neu lai, a dylai adlewyrchu blaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru yn fras.

**DATBLYGU POLISI**

16. Mae'r holl bethau uchod yn awgrymu y gallai *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi*:

- Gyfleu a darparu naratif clir ar gyfer y polisïau a'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod blynyddoedd diweddar i gefnogi'r economi a busnesau trwy'r dirywiad ac i adferiad;

- Nodi'r polisïau a'r blaenoriaethau a wnaiff ddarparu rôl bwysig wrth baratoi Cymru am y cyfleoedd a'r heriau a ddaw wrth i'r economi fyd-eang dyfu;

- Cynnig awgrym o gyfeiriad polisi economaidd yng Nghymru i'r dyfodol, adeiladu ar egwyddorion adfer yr economi a chydnabod yr amgylchedd buddsoddi byd-eang newydd;

- Nodi rôl Llywodraeth Cymru yn glir a'r cwmpas a'r angen am waith partneriaeth agos yng Nghymru ac ar ei thraws;

- Defnyddio ysgogiadau megis modelau ariannol newydd, alinio ffynonellau cyllid a Chronfeydd Strwythurol Ewrop i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau;

- Caniatáu i lwyddiannau gael eu mesur erbyn mesurau perfformiad allweddol.

**Themâu, egwyddorion a blaenoriaethau**

17. Erys twf economaidd, swyddi cynaliadwy a threchu tlodi yn flaenoriaethau pennaf y Llywodraeth, a byddant yn rhan ganolog o *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi.* Bydd yn pwysleisio, trwy weithio gyda busnesau, partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid allweddol eraill, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau tymor byr yn ogystal â sicrhau buddion parhaol i bobl, busnesau a llefydd ar draws Cymru.

18. Bydd datblygiad *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi* newydd yn esblygiad o egwyddorion adfer yr economi. Bydd yn cydnabod fod newidiadau sylweddol wedi digwydd yn ystod blynyddoedd diweddar, o ddirywiad i adferiad, tynhau ariannol sylweddol, yr angen am ymyrraeth uniongyrchol wedi'i dargedu i gefnogi'r economi, ac ymddangosiad meddylfryd newydd, gyflenwol, o ran polisi economaidd i'r dyfodol.

19. Bydd y Fframwaith yn amlinellu heriau allweddol economi Cymru yn ymwneud â themâu pobl, busnes a lle; yr angen i:

- Gynyddu cyfraddau cyflogaeth a gwella'r sylfaen sgiliau - **Pobl**
- Gwella cynhyrchiant a chynyddu'r gallu i gystadlu - **Busnes**
- Annog cydgrynhoi a gwella seilwaith - **Lle**

**DATBLYGU POLISI**

20. Un elfen allweddol i'n galluogi i gyflawni o fewn y themâu hyn fydd sicrhau fod busnesau, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol, yn cydweithio i sicrhau y caiff buddsoddiadau eu halinio a'u cynllunio i sicrhau'r effaith mwyaf, parhaol. Bydd gwaith partneriaeth agos ac effeithiol a dealltwriaeth glir o rôl a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn hanfodol wrth dargedu a chydgysylltu camau gweithredu.

21. Bydd angen i'r *Fframwaith Economaidd ar gyfer Buddsoddi* nodi sut caiff heriau allweddol eu cyflawni – blaenoriaethau gweithredu. Maent yn debygol o gynnwys:

<u>Pobl</u>

- Gwella sgiliau i sicrhau cyflogaeth a dilyniant
- Addysg bellach, cefnogaeth i ddiwydiannau sydd ar gynnydd a chyflogaeth sy'n galw am sgiliau uwch
- Twf Swyddi Cymru
- Prentisiaethau
- Rhaglenni hyfforddiant
- Hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer aelwydydd heb waith

<u>Busnes</u>

- Caffael, manteisio i'r eithaf ar wariant y sector cyhoeddus
- Cefnogi cadwyni cyflenwi Cymru trwy gwmnïau angori
- Twf, effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chostau busnesau ynni
- Annog arloesedd a gwyddoniaeth
- Cefnogaeth ar gyfer sectorau strategol, busnesau ac entrepreneuriaeth
- Ardrethi busnes a'r Cyllid Sydd ar Gael
- Hybu masnach a buddsoddiadau rhyngwladol.

<u>Lle</u>

- Cysylltu canolbwyntiau economaidd / seilwaith mawr i hybu twf ar draws Cymru
- Dinas-ranbarthau a chysylltiadau â ffin Gogledd Cymru
- Ardaloedd Menter ac Ardaloedd Twf Lleol
- Cenhedlaeth Nesaf Band Llydan a gweithredu Cymru Ddigidol
- Cyfoeth Naturiol Cymru a thwf gwyrdd
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan busnes, twristiaeth a digwyddiadau
- Cynllunio polisi a sicrhau cynnig eiddo / tir cryf.

## DATBLYGU POLISI

**Camau nesaf a argymhellir**

22. Gofynnir i aelodau'r Cyngor:

- Gynnig sylwadau ynghylch y dull arfaethedig a thrafod y materion allweddol;
- Cytuno ar y camau nesaf:
    - Cynhelir gweithdy ym mis Tachwedd i symud datblygiad *Fframwaith Economaidd ar gyfer Gweithredu* drafft yn ei flaen;
    - Cyflwynir *Fframwaith Economaidd ar gyfer Gweithredu* drafft yng nghyfarfod nesaf Cyngor Adnewyddu'r Economi.